

---

# HYRWYDDO YMARFER DIOGEL I BLANT AC OEDOLION MEWN PERYGL

---



F1-DYDDIAD  
YR EGLWYS YNG NGHYMRU  
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

## Tabl Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Egwyddorion Arfer Da.....	2
Swyddi Cyfrifol.....	6
Cymryd rhan mewn Gweithgareddau .....	8
Risg.....	8
Cydsyniad .....	9
Goruchwyllo plant .....	9
Plant o dan bump oed.....	10
Trafnidiaeth.....	10
Cludo plant.....	11
Gwregysau diogelwch a seddi diogel i blant .....	11
Cymorth Cyntaf.....	12
Meddyginiaeth .....	12
Diogelwch Tân.....	12
Ffilmio a thynnu lluniau .....	13
Diogelu data.....	13
Cydsyniad ar gyfer tynnu lluniau.....	14
Defnyddio a storio lluniau.....	14
Digwyddiadau preswyl .....	15
Diogelu Plant mewn Amgylchiadau Penodol .....	16
Corau eglwys a chadeirlan sy'n cynnwys plant .....	16
<b>Cynorthwyr Ifanc.....</b>	<b>17</b>
Clochydion.....	17
Cyngherddau, teithiau, ymweliadau, gweithgareddau oddi ar y safle a digwyddiadau cymdeithasol	18
Gweision Allor .....	18
Diogelu sy'n ymwneud yn benodol â'r Weinidogaeth.....	18

## Hyrwyddo Ymarfer Diogel i Blant ac Oedolion mewn Perygl

### Cyflwyniad

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ceisio darparu cymuned gynhwysol, ddiogel i bawb sydd am gymryd rhan ym mywyd yr eglwys ac am greu amgylchedd sy'n eu helpu i dyfu'n ysbrydol gan ofalu'n gyfrifol amdanynt.

Drwy weinidogaeth a chyswllt â phlant ac oedolion mewn perygl mewn llawer o leoliadau, mae gan yr Eglwys yng Nghymru gyfrifoldeb arbennig i sicrhau bod pawb yn cael ei drin ag urddas a pharch a bod yn effro i arwyddion o gam-drin, esgeulustod neu ofal gwael.

Cynlluniwyd y canllawiau arfer da hyn i holl aelodau'r Eglwys yng Nghymru sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb am ofal bugeiliol eraill. Y gobaith yw y bydd yn helpu'r gymuned eglwysig i ddeall anghenion plant ac oedolion sydd mewn perygl gan helpu i wella gofal bugeiliol.

Dylai unrhyw un sy'n ymwneud ag unrhyw weithgarwch yn yr Eglwys yng Nghymru sy'n dod â nhw i gysylltiad â phlant a/neu oedolion mewn perygl ddilyn y canllawiau hyn.

### Egwyddorion Arfer Da

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl:

- sicrhau eu bod yn gyfarwydd â Pholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru a chanllawiau cysylltiedig
- trin pob plentyn neu oedolyn mewn perygl ag urddas a pharch
- cyflawni eu dyletswydd gofal drwy weithredu er budd gorau plant, oedolion mewn perygl ac eraill bob amser
- peidio â gorfodi neu wthio plentyn neu oedolyn mewn perygl i gymryd rhan mewn gweithgaredd
- gosod esiamp gadarnhaol i eraill ei dilyn
- peidio â chymryd rhan mewn gofal bugeiliol sydd y tu hwnt i'w cyfrifoldeb a/neu eu cymhwysedd
- annog eraill i herio'n briodol agweddau neu ymddygiad nad ydynt yn ei hoffi
- parchu amrywiaeth a cheisio hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhywedd, hil, ethnigrwydd, cefndir diwylliannol, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd

Dylai unrhyw un sy'n gweithio i'r Eglwys yng Nghymru rymuso plant ac oedolion mewn perygl

i ddiogelu eu hunain drwy wrando arnynt a derbyn yr hyn maent yn ei ddweud a rhoi dewisiadau a chynghor a gwybodaeth berthnasol iddynt (sy'n addas i'w hoedran a'u dealltwriaeth). Dylid cynnwys plant ac oedolion mewn perygl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol.

Mae'n bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau yn seiliedig ar oedran neu unrhyw ffactor arall. Er enghraifft, dylid gofyn i oedolion mewn perygl a ydynt yn hapus i chi ddefnyddio eu henw cyntaf neu a fyddent yn dymuno i chi ddefnyddio eu teitl a'u cyfenw.

Ystyriwch eich iaith, tôn y llais, ac iaith eich corff bob amser. Dylid defnyddio iaith gadarnhaol a phriodol bob amser ac os oes angen, dylid gofyn am gyngor pan fydd gan y person anghenion cyfathrebu penodol.

Dylai pawb osgoi sylwadau y gellid eu cymryd fel rhai ag ensyniadau rhywiol neu y gellid eu hystyried yn rhai personol a dylid annog pobl i beidio â thrafod pethau o natur rywiol. Ni ddylai'r egwyddor hon atal unrhyw un rhag gwranddo ar blentyn neu oedolyn mewn perygl mewn sefyllfa lle mae eu gofid yn cael ei achosi gan bryderon corfforol neu emosiynol sy'n rhaid eu cydnabod er budd helpu'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl ar yr adeg honno. Efallai y bydd angen i oedolyn sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl wrando ar blentyn neu oedolyn mewn perygl yn disgrifio neu'n egluro problem bersonol ac ymateb yn briodol. Ni ddylai'r oedolyn addo i gadw cyfrinach mewn amgylchiadau o'r fath ac mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw achos o bryder i arweinydd y gweithgaredd neu i'r swyddog diogelu cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai oedolion ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol i sicrhau nad ydynt yn cael eu tynnu i mewn i feysydd sgwrsio sy'n amhriodol i'w dyletswyddau neu i'w perthynas â'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl dan sylw. Dylai oedolion sicrhau bod pob pwnc sgwrs gyda phlant yn briodol, gan ystyried oedran a dealltwriaeth y plentyn. Mae defnyddio sylwadau deifiol, diraddiol neu ansensitif tuag at blant neu oedolion mewn perygl yn ffurf ar gam-drin ac mae'n rhaid ei osgoi.

Lle bo hynny'n bosibl, ni ddylech weithio ar eich pen eich hun gyda phlentyn, oedolyn mewn perygl neu grŵp. Yn adeiladau'r eglwys, gallai hyn olygu gadael drysau'n agored, neu drefnu i ddau grŵp wneud gweithgareddau yn yr un ystafell. Mae hyn yn galluogi gweithwyr i gefnogi ei gilydd a pharhau i fod yn atebol i'w gilydd fel tîm. Cytunwch ar rai canllawiau sylfaenol ar gyfer pob gweithgaredd fel bod pawb yn ymddwyn yn gyson a bod y disgwyliadau'n glir. Gwnewch yn siŵr bod y rhain yn cael eu rhannu â phlant ac oedolion mewn perygl, gwirfoddolwyr, gweithwyr newydd, rhieni a gofawyr a'u bod yn ddealladwy i bawb.

Dylid rhoi'r lefel uchaf posibl o barch i breifatrwydd a chyfrinachedd plant ac oedolion mewn perygl o dan yr amgylchiadau ond ni ddylid addo cadw cyfrinachau. Ni ddylai gweithwyr gael sgyrsiau preifat neu bersonol â phlant neu oedolion mewn perygl. Mae cynnig gofal a chymorth priodol yn bwysig felly, wrth wrando ar broblem unigolyn neu gynnig cynghor, a dylid bod yn ofalus wrth ddewis lleoliad a man priodol i gael trafodaeth o'r fath. Lle bo'n bosibl, dylech roi gwybod i arweinwyr eraill am y cyfarfod a dylai pobl eraill fod o gwmpas.

Dylid defnyddio cyswllt corfforol â phlant neu oedolion mewn perygl yn briodol a chyda pharch at ffiniau personol. Dylai pob cyswllt corfforol fod yn gysylltiedig ag anghenion y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl ac nid er budd y gweithiwr. Mae rhesymau priodol ar gyfer cyswllt corfforol yn cynnwys:

- Rhoi cymorth cyntaf.
- Atal plentyn neu oedolyn mewn perygl rhag iddo gael niwed neu anafu ei hun neu eraill neu wneud difrod i eiddo. Dylid defnyddio dull atal rhesymol a chymesur yn unig.
- Cysuro neu roi sicrwydd i blentyn neu oedolyn mewn perygl sy'n pryderu. Dylai oedolion eraill wybod eich bod yn gwneud hyn a bod yn dyst iddo yn ddelfrydol.
- Rhannu'r heddwch yn y Cymun trwy ysgwyd llaw.

Dylid cadw cysylltiad corfforol, lle mae'n angenrheidiol a phriodol, mor gyhoeddus â phosibl. Dylid gwneud hynny cyn lleied â phosibl, dylai fod yn briodol, ni ddylai fod am gyfnod estynedig ac ni ddylid ei ailadrodd. Dylai oedolion ystyried oedran a dealltwriaeth y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl ac osgoi cysylltiad a allai gael ei gamddechongli. Os oes unrhyw gysylltiad corfforol. Os bydd unrhyw gyswllt corfforol anarferol yn digwydd rhwng oedolyn a phlentyn neu oedolyn mewn perygl, hyd yn oed yn ddamweiniol, mae'n bwysig bod yr oedolyn yn adrodd am y digwyddiad i'r arweinydd gweithgaredd neu'r swyddog diogelu cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl, waeth faint o embaras y mae'n ei deimlo neu waeth pa mor ddibwys yw'r digwyddiad o bosibl.

Dylai gweithwyr fod yn agored a thryloyw a dylai aelodau timau fonitro ei gilydd ym maes ymddygiad neu gyswllt corfforol. Dylent fod yn rhydd i helpu'i gilydd drwy gynnig cymorth os oes angen a thrwy herio unrhyw beth y gellid ei gamddeall neu ei gamddechongli yn adeiladol. Dylai timau ystyried diogelwch plant a/neu oedolion mewn perygl bob amser ond hefyd ystyried diogelwch y gweithiwr i ddiogelu ei hun rhag honiadau. Dylai pob ymddygiad fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. Dylai pawb fod yn ymwybodol y gall eraill gamddechongli gweithredoedd unrhyw un waeth pa mor dda y'u bwriadwyd.

Ni ddylai clerigion, swyddogion eglwys neu wirfoddolwyr feithrin perthynas bersonol gyda phlant ac oedolion mewn perygl y maent wedi'u cyfarfod drwy weithgareddau'r eglwys. Mae'n amhriodol i oedolyn drefnu neu gytuno i gyfarfod, neu ymestyn cyfarfod damweiniol â phlentyn neu oedolyn mewn perygl y tu allan i amgylchedd yr eglwys. Os yw oedolion yn rhagweld achlysur o'r fath yn datblygu dylent ei drafod gyda'r periglor, yr offeiriad cyfrifol neu arweinydd y gweithgaredd.

Wrth ystyried cyfathrebu'n uniongyrchol â phlant neu oedolion mewn perygl, boed ar y ffôn, neges destun, e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, mewn llythyr neu unrhyw ddull electronig neu anelectronig arall, dylid defnyddio'r un egwyddorion ag wrth ryngweithio wyneb yn wyneb. Byddai hyn yn cynnwys cael oedolyn arall yn bresennol ym mhob achos o gyfathrebu. Rhiant neu ofalwr fydd yr unigolyn hwn yn amlach na pheidio. Fe all fod amgylchiadau, yn enwedig gyda phobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion mewn perygl, lle y gall deimlo'n fwy priodol i gynnwys oedolyn arall o dîm arwain yr eglwys, a recritiwyd yn ddiogel, yn hytrach na'r rhiant/gofalwr. Bod yn agored a thryloyw sy'n allweddol yma. Ni ddylai personél yr Eglwys yng Nghymru ddarparu eu gwybodaeth cyswllt personol i blant neu oedolion mewn perygl ac ni ddylent dderbyn ceisiadau i gysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dylai ymdrechion parhaus gan blentyn neu oedolyn mewn perygl i ymgysylltu â phersonél yr eglwys y tu allan i weithgareddau'r eglwys gael eu trafod â'r periglor, yr offeiriad cyfrifol neu arweinydd y gweithgaredd, a all ofyn am gyngor/arweiniad pellach gan dîm diogelu'r dalaith os oes angen.

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion mewn perygl fod yn ymwybodol o'r

posibilrwydd y gallent ffoli neu wirioni arnoch chi, yn enwedig plant yn y glasoed a phlant hŷn. Dylent hysbysu cydweithiwr os gwelant ffoli neu wirioni o'r fath yn datblygu a allai roi'r cydweithiwr hwnnw mewn perygl. Dylai gweithwyr barhau'n broffesiynol ac osgoi ychwanegu at broblemau'r plentyn neu'r oedolyn drwy dynnu coes am y peth neu roi lle i'r fath sefyllfa. Os yw'r gweithiwr yn poeni bod sefyllfa arbennig yn datblygu dylai siarad ag arweinydd y gweithgaredd. Pe bai plentyn neu oedolyn mewn perygl yn dechrau dangos ymddygiad corfforol neu lafar annerbyniol, dylai'r oedolyn dan sylw ddatgysylltu ei hun yn garedig ond cadarn ac esbonio nad yw agosrwydd o'r fath yn briodol nac yn dderbyniol. Fodd bynnag, dylai fod yn ofalus rhag ymateb mewn ffordd sy'n sarhau'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl. Os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl yn datblygu tueddiad yn rheolaidd i aros ar ôl gyda gweithiwr fel pe bai'n helpu, neu i drafod pethau, dylai'r gweithiwr gymryd camau i osgoi'r sefyllfa rhag datblygu, naill ai drwy ofyn i blentyn neu oedolyn mewn perygl arall helpu gyda'r un dasg, gwahodd gweithiwr arall i'r ystafell, neu atal y cyfle rhag ailgodi.

Dylai pawb gofio bod oedolyn mewn perygl yn dal i fod yn oedolyn ac ni ddylid ei drin fel plentyn o gwbl. Dylid cydnabod y dewisiadau y mae unigolyn yn eu gwneud er eu bod yn ymddangos yn beryglus, oni bai bod yna dystiolaeth o nam ar ei alluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw.

Dylai unrhyw un sy'n gweithio gydag oedolion mewn perygl ymddwyn yn barchus wrth ymweld â'r oedolyn gartref, gan ofalu cnocio cyn mynd i mewn i adeilad neu ystafell a bod yn ymwybodol o breifatrwydd yr unigolyn. Ni ddylid ymweld â rhywun ar eich pen eich hun. Fodd bynnag, pan fyddwch yn gwneud hynny, mae'n rhaid cytuno ar y rheswm am yr ymweliad a'i gofnodi, dylai'r ymwelydd hysbysu rhywun am ei leoliad a rhoi gwybod i'r person hwnnw pan fydd yr ymweliad wedi gorffen. Ni ddylid ymweld gyda'r nos oni bai ei fod yn argyfwng.

Dylid trefnu ymweld â phlant yn eu cartref gyda'u rhieni neu ofalwyr, a ddylai fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad. Ni ddylech fynd i mewn i gartref plentyn os yw'r rhiant neu'r gofalwr yn absennol oni bai bod y plentyn mewn perygl o niwed ar y pryd. Ni ddylid gwahodd plant i gartref offeiriad, swyddog eglwys na gwirfoddolwr oni bai bod rhiant neu warcheidwad gyda nhw.

Mae'n bwysig sicrhau bod y dewisiadau a gynigir i unigolion yn cael eu deall yn llawn ganddynt a bod cymorth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n sicrhau bod person yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Gall pobl ag anghenion ychwanegol fyw bywydau prysur a llawn ac maen nhw'n gwneud hynny ond efallai y bydd angen cymorth ac adnoddau i wneud hynny ar rai. Parchwch eu hannibyniaeth a pheidiwch ag annog y person i fod yn ddibynnol arnoch chi.

Dylai unrhyw un sy'n gweithio gydag oedolion mewn perygl ymatal rhag ymdrin â materion ariannol unigolyn oni bai bod y gyfraith yn gofyn iddynt wneud hynny a'u bod yn cael eu rheoli o fewn fframwaith ffurfiol.

Ni ddylai pobl sy'n gweithio ar ran yr Eglwys yng Nghymru dderbyn rhoddion materol neu ariannol o phlant neu oedolion ewn perygl.

Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant ddysgu sut i reoli a disgyblu plant heb droi at gosbi corfforol. Peidiwch **byth** â smacio neu daro plentyn a pheidiwch â gweiddi. Dylai disgyblaeth a rheolaeth gael ei reoli drwy newid tŷn y llais, atgyfeirio problemau disgyblu gyda phlant unigol i'w rhieni neu ofalwyr a gofyn am gymorth ychwanegol os oes angen. Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant ddod i'w nabod a gweld beth sy'n gweithio iddyn nhw fel unigolion ac fel

grŵp. Dylai gweithwyr wneud cytundebau grŵp oedran priodol (rheolau sylfaenol) gyda'r plant ar beth yw ymddygiad derbyniol (e.e. dim taro, gweiddi, galw enwau ac ati), y gellir eu hadolygu'n rheolaidd gyda'i gilydd. Ni ddylid goddef gweithgareddau ymosodol gan gyfoedion fel bwlio.

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion mewn perygl osgoi sefyllfaoedd o fewn perthynas o ymddiriedaeth a allai gyfaddawdu'r berthynas honno:

- peidio â chychwyn neu ganiatáu gemau neu ddefnyddio cyfarpar sy'n golygu llawer o gyswllt corfforol, neu a allai gael ei weld fel rhai pryfoclyd yn rhywiol
- peidio â gwneud neu ganiatáu sylwadau, neu gellwair awgrymog am unrhyw unigolyn ac osgoi cael eu tynnu i sefyllfa sy'n caniatáu neu annog plentyn neu oedolyn mewn perygl i dynnu sylw at ei hun mewn modd rhywiol neu rhy gorfforol
- gofyn am gyngor ac ymdrin yn briodol ag ymddygiad ceisio sylw gan blant neu oedolyn mewn perygl, e.e. cariad ffôl, gwirioni neu strancio

Ni ddylai staff a gwirfoddolwyr yr Eglwys yng Nghymru gludo plentyn neu oedolyn mewn perygl mewn cerbyd heb fod rhywun arall gyda nhw. Dylai gweithwyr sicrhau bod arweinydd/cynorthwydd arall yn mynd gyda nhw yn y cerbyd. Os yw amgylchiadau'n gorfodi rhywun i gludo plentyn neu oedolyn mewn perygl ar ei ben ei hun, dylid hysbysu arweinwyr/cynorthwywyr eraill am yr hyn sy'n digwydd, ac mae'n rhaid i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl deithio yn sedd gefn y cerbyd, gan ddefnyddio seddi diogel a gwregysau diogelwch priodol.

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion mewn perygl fod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio ffonau symudol a sicrhau bod cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio yn ofalus.

Ni ddylai clerigion, staff a gwirfoddolwyr ddiystyru datgeliadau, honiadau neu bryderon yn ymwneud â cham-drin. Mae'n bwysig cymryd unrhyw ddatgeliad, honiad neu bryder am gam-drin o ddifrif. Dylid ysgrifennu nodiadau gofalus am beth sy'n cael ei weld a'i glywed a dylid adrodd am hynny'n syth. Adnabod, cofnodi, adrodd.

Peidiwch byth ag ofni gofyn am gymorth a chymerwch gyngor gan arweinwyr a staff mwy profiadol.

Mae Swyddogion Diogelu'r Dalaith ar gael i ymgynghori a chynghori a dylid cysylltu â nhw am bob datgeliad, honiad neu bryder sy'n ymwneud â cham-drin neu niwed.

## Swyddi Cyfrifol

Mae person mewn swydd gyfrifol os oes ganddo rôl sy'n rhoi awdurdod iddo dros eraill. Mae disgwyl i'r unigolyn hwn ddefnyddio'r awdurdod hwnnw er budd y rhai y mae'n gyfrifol amdanynt a pheidio â chymryd mantais arnynt na'u hecsbloetio. Mae enghreifftiau o rolau'r Eglwys yng Nghymru sy'n cael eu hystyried yn "swyddi cyfrifol" wedi'u rhestru isod ond

nodwch nad yw'r rhestr hon yn un gaeth ac y gallai fod yna rolau eraill a ddylai/fyddai'n cael eu hystyried fel swyddi cyfrifol sydd heb eu rhestru:

- clerigion
- gweinidogion lleyg trwyddedig e.e. Darllenwyr
- arweinwyr addoliad
- swyddogion diogelu
- arweinwyr a gweithwyr plant neu ieuencid
- arweinwyr Ysgolion Sul neu grwpiau rhiant a phlentyn
- wardeiniaid eglwysi
- arweinwyr cerddoriaeth/corau
- arweinwyr grwpiau i oedolion a allai fod yn agored i niwed e.e. yr henoed, oedolion â phroblemau iechyd meddwl, ffoaduriaid, pobl ddigartref
- gyrwyr gwirfoddol y plwyf – sy'n gyrru grwpiau agored i niwed (plant a/neu oedolion agored i niwed)
- capteiniaid tyrrau a chlochyddion sy'n addysgu neu'n hyfforddi plant neu oedolion mewn perygl
- lleygion sydd wedi'u hawdurdodi i ddarparu gofal bugeiliol – bydd hyn yn cynnwys ymwelwyr cartref bugeiliol a gweithwyr allgymorth bugeiliol.

Mae'r rhestr uchod yn awgrymu rhai o'r rolau 'nodweddiadol' a fyddai'n cael eu diffinio fel 'swyddi cyfrifol'. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod bron unrhyw rôl o fewn yr eglwys yn cyfleu lefel o ymddiriedaeth a pharch i ymwelwyr – yn enwedig plant. Mae'n rhaid i bawb sy'n rhan o fywyd yr eglwys ystyried sut maen nhw'n ymwneud ag eraill a chyda'r rhai sy'n agored i niwed yn arbennig, yn cynnwys yng nghyd-destun yr eglwys.

Pam mae hyn yn bwysig? Dylai pob perthynas yn yr eglwys fod wedi'i nodweddu gan haelioni, gofal a charedigrwydd. Dylid cymryd gofal arbennig pan fo'r berthynas honno'n cynnwys lefel o gyfrifoldeb am eraill neu awdurdod drostynt. Mae'n rhaid defnyddio'r cyfrifoldeb a'r awdurdod hwnnw mewn modd y gellir ymddiried ynddo, gan gydnabod y pŵer a'r dylanwad y gellir ei gael dros eraill, efallai'n ddiogel. Mae meddwl am bŵer a dylanwad a rheoli perygl o gamddefnyddio swydd gyfrifol yn ganolog i ddiogelu.

Mae'r berthynas rhwng person mewn swydd gyfrifol yn yr eglwys a'r rhai maent yn eu gweinyddu yn un o bŵer a dylanwad. Nid perthynas rhwng dau gyfartal mohoni. Mae'n rhaid bod yn ofalus, sy'n golygu bod yn rhaid i'r rhai mewn swyddi cyfrifol:

- fod yn ymwybodol o'r pŵer a'r dylanwad sydd ganddynt a'i ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n parchu ac yn grymuso eraill
- cydnabod bod pŵer a dylanwad yn gallu gweithredu mewn ffyrdd cynnil a chudd hyd yn oed ac nid wedi'i gyfyngu i arddulliau arwain mwy amlwg awdurdodus yn unig
- cynnal ffiniau clir mewn perthnasoedd ac osgoi defnyddio eu rôl i greu perthnasoedd agos amhriodol neu ddibyniaeth gyda'r rhai y maen nhw'n gyfrifol amdanynt
- peidio â defnyddio eu pŵer i gam-drin, ecsbloetio, bwlio, dychryn, gorfodi neu danseilio

Efallai y bydd rhywun sy'n gofyn am gymorth yn gofidio, yn drist, yn ddryslyd neu'n ofnus ac mae hynny'n ychwanegu at eu natur agored i niwed. Mae hyn yn ei gwneud hi hyd yn oed yn



bwysicach i'r rhai sy'n ymateb iddynt fod yn ymwybodol o'u statws a'u pŵer. Gall perthnasoedd fynd yn annelwig, yn ddibynnol neu'n rhai sy'n ecsbloetio mewn sefyllfaoedd o'r fath os nad yw ffiniau'n cael eu cynnal. Mae hyn yn fwy gwir yn yr eglwys, lle gall perthnasoedd fod yn llai ffurfiol nag mewn lleoliadau eraill.

Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 wedi'i diwygio yn 2022 i ehangu'r ddeddfwriaeth Swyddi Cyfrifol i gynnwys yr unigolion hynny sy'n coetsio, addysgu, hyfforddi, goruchwyllo neu gyfarwyddo mewn camp neu grefydd.

Felly, mae bellach yn erbyn y gyfraith i rywun mewn swyddi gyfrifol mewn cyd-destun eglwys i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn yn ei ofal, hyd yn oed os yw'r plentyn hwnnw dros oed cydsynio (16 neu hŷn).

Felly, mae gweithgarwch rhywiol rhwng oedolyn a phlentyn dan 18 oed, os yw'r oedolyn hwnnw mewn swydd gyfrifol mewn lleoliad eglwys, yn torri rheolau'r swydd honno ac yn erbyn y gyfraith. Bydd yn cael ei drin fel pryder diogelu difrifol a bydd yn cael ei gyfeirio at yr awdurdodau statudol. Os yw'r oedolyn dan sylw wedi ei ordeinio, byddai trosedd o'r fath yn arwain at gŵyn am weithredu dan driwlynlys disgyblu'r Eglwys yng Nghymru.

Ystyriaethau ar gyfer Ymarfer:

- Meddyliwch am y gwahaniaethau oedran buddiol rhwng y rhai sydd yn eich grwpiau ieuencid a'r rhai sy'n eu harwain
- Gofalwch fod ein harweinwyr, gan gynnwys ein harweinwyr ifanc, yn ymwybodol o gyfreithiau Swydd Gyfrifol CYN iddynt ymgymryd â rôl.
- Byddwch yn wylidwrus am unrhyw berthynas ramantus a allai ddatblygu rhwng pobl ifanc ac arweinwyr yn yr eglwys a mynnwch sgwrs yn fuan am unrhyw bryderon.
- Cysylltwch â'r tîm diogelu i drafod unrhyw bryderon.

## Cymryd rhan mewn Gweithgareddau

### Risg

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru gyfrifoldeb i asesu'r risg sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a ddarperir i blant ac oedolion mewn perygl. Mae templed asesiad risg yn gweithio fel rhestr wirio i sicrhau bod problemau a risgiau posibl gweithgaredd wedi'u hystyried ac yn help i gynllunio camau gweithredu priodol. Efallai y bydd gwiriad anffurfiol cyn dechrau gweithgaredd yn ddigon ond i weithgareddau grŵp a drefnir mae'n arfer da fel rheol i gwblhau asesiad risg ysgrifenedig. Gweler dogfen ganllaw yr Eglwys yng Nghymru [Asesu a Rheoli Risg](#) am gyngor manwl ar sut i asesu a rheoli risg.

Lle bo'n bosibl, dylai pob gweithgaredd grŵp dan arweiniad eglwys gynnwys rhywun sydd â chymhwyster Cymorth Cyntaf cydnabyddedig.

## Cydsyniad

Dylid cael cydsyniad cyn i blant ac oedolyn mewn perygl gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Dylid cael cydsyniad gan oedolyn â chyfrifoldeb rhiant ar gyfer plentyn cyn i'r plentyn gymryd rhan mewn gweithgaredd. Mae cyfrifoldeb rhiant yn cyfeirio at riant plenty neu rywun sydd a gorchymyn llys i fod a chyfrifoldeb cyfreithiol rhiant.

Dylai'r *Ffurflen Cydsyniad Gyffredinol* gael ei llenwi gan yr oedolyn â chyfrifoldeb rhiant. Dylai'r ffurflen hon ddarparu gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng, cydsyniad i ofyn am gymorth meddygol mewn argyfwng a manylion unrhyw alergeddau neu adweithiau i fwydydd penodol. Pan ddefnyddir y cydsyniad hwn ar gyfer grŵp neu weithgaredd parhaus dylid adolygu'r ffurflen yn flynyddol a'i diweddarau pan fydd unrhyw newidiadau'n digwydd.

Dylid cael cydsyniad ychwanegol (*Cydsyniad ar gyfer Gweithgareddau Penodol*) ar gyfer unrhyw weithgaredd sy'n gofyn mwy na'r gweithgareddau rheolaidd. Gallai hyn fod yn weithgaredd 'risg uchel'; er enghraifft, dringo, neu daith neu gwrs preswyl.

Bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol ar weithgareddau o'r fath hefyd a bydd angen ddefnyddio *Cais i Gymeradwyo Gweithgareddau*.

Mae defnyddio cyfathrebu electronig neu'r cyfryngau cymdeithasol (fel gwefannau a rhaglenni sy'n galluogi defnyddwyr i greu cynnwys a rennir neu gymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol) gyda phlant yn gofyn am gydsyniad ysgrifenedig gan rywun â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn (*Ffurflen Cydsyniad ar gyfer Cyfathrebu Electronig â Phlant*).

Dylid cadw cofrestr o bresenoldeb (*Cofnod Sesiwn*) yn y clwb neu'r gweithgaredd, a chofrestr o weithwyr a gwirfoddolwyr ym mhob sesiwn. Dylai rhieni a gofawyr gael gwybod am natur y gweithgareddau.

Mae'n rhaid cadw ffurflenni cydsyniad a chofrestri presenoldeb yn ddiogel yn unol â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data a chadw cofnodion.

Mae'n rhaid gofyn am gydsyniad oedolyn unigol mewn perygl cyn gwneud gweithgareddau gydag ef neu hi. Cydsyniad ar lafar fydd hyn fel rheol, er y gall cydsyniad ysgrifenedig fod yn briodol ar gyfer rhai gweithgareddau sy'n creu perygl penodol. Dylid cymryd gofal arbennig mewn amgylchiadau lle mae gan oedolyn mewn perygl nam ar ei alluedd meddyliol, er y bydd oedolyn gyda nam ar ei alluedd yn gallu dangos ei ganiatâd i gymryd rhan mewn gweithgaredd mewn llawer o achosion os yw'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd y gall ei deall. Dylid gofyn am gyngor arbenigol cyn i oedolyn sy'n methu â darparu cydsyniad gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a dylai oedolion sy'n rhan o'u darpariaeth gofal a chymorth gael eu cynnwys yn y penderfyniad.

## Goruchwylio plant

Y cymarebau isod yw'r rhai sy'n ofynnol gan yr Eglwys yng Nghymru ac maen nhw'n cydfynd â'r safonau a argymhellir ar gyfer gofal dydd gan Lywodraeth Cymru.

- I oedolyn i 3 o blant o'u genedigaeth i 2 oed
- I oedolyn i 4 o blant 2 oed

- I oedolyn i 8 o blant 3-7 oed
- I oedolyn i 10 o blant 8-12 oed

Y gofynion sylfaenol yw'r cymarebau uchod a dylid eu cynyddu pan fo amgylchiadau'n gofyn am hynny; er enghraifft, cynnig cymorth priodol i blentyn ag anghenion ychwanegol. Lle bo'n bosibl, dylai'r holl weithgareddau gael eu goruchwyllo gan ddau oedolyn o leiaf. Ni ddylid gadael plant ar eu pen eu hunain o gwbl yn ystod y cyfnod goruchwyllo.

Mae angen i'r Eglwys yng Nghymru ddilyn cyngor Arolygiaeth Gofal Cymru fel isafswm ond byddem yn argymhell cael 2 oedolyn i bob 10 plentyn yn holl weithgareddau a digwyddiadau'r eglwys yn unol â hyrwyddo arfer da.

## Plant o dan bump oed

Dylai plant o dan bump oed fod yng nghwmni rhiant neu ofalwr bob amser, yn enwedig os yw'r gweithgaredd yn cael ei gynnal y tu allan i adeilad yr eglwys. Yn achos Ysgol Sul, pan fo'r plentyn o dan bump oed, dylid asesu i weld a all y plentyn fod yn y grŵp ar ei ben ei hun a dim ond os yw arolygwr yr Ysgol Sul wedi cytuno. Yn ogystal, dylai rhiant neu ofalwr y plentyn fod ar gael ac ar safle'r eglwys gydol y sesiwn.

## Trafnidiaeth

Am ragor o wybodaeth am bwy all yrru bws mini'n gyfreithiol gweler y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU yn <https://www.gov.uk/driving-a-minibus>

Pan ddarperir trafndiaeth dylid dilyn y canllawiau arfer da canlynol:

- dylid cael yswiriant cynhwysfawr digonol sy'n yswirio'r gyrrwr ar gyfer gweithgareddau eglwysig. Mae'n rhaid i yrwyr wirio gyda'u cwmni yswiriant bod eu polisi'n cwmpasu defnydd busnes i sicrhau yswiriant wrth yrru ar gyfer eu gweithgareddau gwaith
- mae'n rhaid i'r cerbyd fod yn addas i'r ffordd fawr. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod y cerbyd mewn cyflwr addas i'r ffordd fawr cyn ei ddefnyddio. Gallai methu â gwneud hynny arwain at y gyrrwr yn gyfreithiol atebol mewn unrhyw ddamwain
- mae'n rhaid cael gwregysau diogelwch ac mae'n rhaid i bob unigolyn yn y cerbyd eu defnyddio. Argymhellir bod y gyrrwr yn ceisio sicrhau bod gwregysau diogelwch yn cael eu gwisgo ar unrhyw daith, waeth pa mor fyr ydyw
- ni ddylai cyfanswm y plant a'r oedolion yn y cerbyd fod yn fwy na'r uchafswm a ganiateir
- os yw'r bws mini yn eiddo i'r eglwys, mae'n rhaid enwi'r holl yrwyr ar y polisi yswiriant
- wrth logi bws mini neu fws mwy, cyfrifoldeb y grŵp defnyddwyr yw gwirio cyfreithlondeb ac yswiriant y gweithredwr cyn defnyddio'r cerbyd. Os oes unrhyw amheuaeth am hyn yna dylid gofyn am gopi o yswiriant a thrwydded y gweithredwr. **Os oes gennych amheuaeth ni ddylid gyrru'r cerbyd.**
- dylid cadw llyfr adrodd am ddamweiniau/llyfr log torri i lawr mewn bysiau mini eglwysig a'u cadw'n gyfredol

- ni ddylid gyrru'n gyflymach na'r terfynau cyflymder uchaf: 50mya ar ffordd unffrwd, 60mya ar ffordd ddeuol a 70mya ar draffordd
- mae'n rhaid cadw blwch cymorth cyntaf a diffoddydd tân yn y cerbyd a dylai'r gyrrwr fod yn gyfarwydd â nhw.

## Cludo plant

Ni ddylid cludo plant heb gydsyniad ymlaen llaw gan eu rhieni neu warcheidwaid trwy ddefnyddio'r *Ffurflen Cydsyniad Gyffredinol*.

Pan fo gyrrwr yn cludo plant mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â gweithdrefnau recriwtio diogel. Mae'n rhaid cwblhau gwiriad cofnodion troseddol, mae'n rhaid iddynt fod dros bump ar hugain oed, rhaid bod ganddynt drwydded yrru lawn am dros ddwy flynedd ac os gyrrir bws mini, dylid cynnal gwiriadau i gadarnhau bod y drwydded yn rhoi hawl i'r gyrrwr yrru bws mini.

Mae'n rhaid i yrwrwr gyda mwy na chwe phwynt ar eu trwydded hysbysu Swyddog Diogelu'r Ardal Weinidogaeth/Genhadaeth ac ni ddylai unrhyw yrrwr sydd ag euogfarn am yfed a gyrru, gyrru'n beryglus neu rasio ar y briffordd neu debyg gludo plant oni bai bod Panel Diogelu'r Dalaith wedi ystyried hyn.

Peidiwch â chludo plentyn ar eich pen eich hun. Gwnewch yn siŵr bod y plentyn yng nghwmni oedolyn arall bob amser. Mewn amgylchiadau eithriadol pan na ellir osgoi hyn, mae'n hanfodol sicrhau bod arweinwyr/cynorthwyr eraill yn cael gwybod beth sy'n digwydd, a bod y plentyn yn eistedd yng nghefn y cerbyd.

Dylai arweinwyr/cynorthwyr sy'n mynd gyda phlant ar fysiau mini eistedd ymysg y bobl ifanc a dylai arweinydd/cynorthwydd eistedd ger mannau gadael y cerbyd yn ddelfrydol.

Os yw rhieni'n gwneud trefniadau preifat i roi lifft i blant heblaw eu plant eu hunain mae'n rhaid dweud yn glir mai trefniant rhwng darparwr y lifft a rhieni neu ofalwyr y plentyn yw'r trefniant hwnnw ac nid trefniant a gymeradwywyd neu a hwyluswyd gan weithwyr yr eglwys.

## Gwregysau diogelwch a seddi diogel i blant

1. Dylai plentyn o dan 3 oed ddefnyddio'r sedd ddiogel sy'n briodol i'w bwysau mewn unrhyw gerbyd (yn cynnwys faniau a cherbydau nwyddau eraill). Yr unig eithriad i hyn yw yng nghefn tacsï lle nad yw'r sedd ddiogel gywir i blentyn ar gael.
2. Ni ddylid defnyddio sedd babi sy'n wynebu'r cefn mewn sedd a ddiogelir gan fag awyr blaen oni bai bod y bag awyr wedi'i ddadactifadu â llaw neu'n awtomatig.
3. Mewn cerbydau ble mae gwregysau diogelwch wedi'u gosod, mae'n rhaid i blant 3 oed hyd at 135cm o daldra (4 troedfedd 5 modfedd) ddefnyddio sedd ddiogel i blant briodol ac eithrio mewn tacsï lle nad oes un ar gael, bod y daith yn un fyr ac yn achlysurol a bod dwy sedd i blentyn wedi'u cymryd yn y cefn yn barod ac felly nad oes modd gosod trydedd sedd plentyn. Yn yr achosion hyn, gall y plentyn deithio yn y cefn yn defnyddio gwregys oedolyn.
4. Mae'n rhaid i blant o 3 oed hyd at 135cm o daldra (neu hyd at eu 12fed pen-blwydd, p'run bynnag ddaw gyntaf) ddefnyddio sedd codi'n-uwch (gweler yr eithriadau uchod).

5. Mae'n rhaid i blant 12 neu 13 oed, neu dros 135cm o daldra wisgo gwregys diogelwch os oes un wedi'i osod.

## Cymorth Cyntaf

Argymhellir bod o leiaf un o'r arweinwyr mewn grŵp ar gyfer plant neu oedolion agored i niwed yn mynychu cwrs Cymorth Cyntaf cydnabyddedig, fel cwrs undydd Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys.

Dylai pecyn cymorth cyntaf fod ar gael ar bob safle ac ar deithiau a thripiâu. Dylai'r pecynnau fod yn hygyrch i bawb - er enghraifft, os yw neuadd yr eglwys mewn adeilad ar wahân i'r eglwys ei hun, byddai'n gwneud synnwyr cael pecyn cymorth cyntaf yn y ddau adeilad. Nid oes safon ffurfiol i nodi beth ddylid ei gynnwys mewn pecyn cymorth cyntaf, ond mae cyngor rhagorol ar gael gan Ambiwlans Sant Ioan a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Wrth roi cymorth cyntaf, cofnodwch beth arweiniodd at y driniaeth, pa driniaeth a roddwyd a phwy oedd yn bresennol. Defnyddiwch lyfr damweiniau i gofnodi hyn. Os nad yw arweinydd y gweithgaredd yn bresennol dylid rhoi gwybod iddo am y digwyddiad cyn gynted â phosibl, a dylai gydlodfodi'r log damweiniau a gwneud unrhyw sylwadau angenrheidiol.

Bydd digwyddiadau mwy difrifol yn gofyn am adroddiadau mwy cyflawn ar wahân gan y rhai cysylltiedig ac arweinydd y grŵp. Mae'n bosibl y bydd angen darparu'r adroddiadau hyn i Arweinydd yr Ardal Weinidogaeth neu Genhadaeth, yswirwyr neu gorff perthnasol arall.

Hysbyswch y rhiant(rhieni) neu ofalwr(wyr) yn fuan os bydd plentyn neu oedolyn mewn perygl yn cael damwain, yn cynnwys manylion unrhyw gymorth cyntaf a roddwyd. Yn achos anaf bychan, dylid dweud wrth y rhiant neu'r gofalwr pan fydd y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yn cael ei gasglu neu'n fuan ar ôl y gweithgaredd.

## Meddyginiaeth

Bydd rhieni plant sydd angen meddyginiaeth yn rhoi gwybod i chi am yr anghenion hyn fel arfer ac yn disgwyl i chi ddilyn y cynllun meddyginiaeth a luniwyd ganddynt. Dylid cynnwys manylion yn y ffurflen gofrestru. Ni ddylid rhoi meddyginiaethau i blant heb gydsyniad y rhieni neu'r gofalwyr. Hefyd, mae angen i blant dros dair ar ddeg oed roi eu cydsyniad i gael meddyginiaeth. Dylech ddilyn y cynllun y cytunwyd arno gyda'r gofalwr(wyr) yn achos oedolion sydd heb y gallu i gymryd meddyginiaeth eu hunain.

Yn dibynnu ar oedran a dealltwriaeth y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl, dylid eu hannog i roi eu meddyginiaeth neu driniaeth eu hunain. Eto, dylid trafod manylion hyn gyda'r rhieni a'r gofalwyr.

## Diogelwch Tân

Mae diogelwch tân yn bwnc allweddol sy'n effeithio ar ddiogelu, diogelwch cyffredinol yn yr eglwys, a rheoli adeiladau. Mae'n cael ei drafod yn fanwl yn nogfen Ecclesiastical Insurance *Church: Fire Risk Assessment*. Dylai eglwysi argraffu a dilyn cyngor y ddogfen hon yn ofalus neu ddogfen gan yswiriwr gwahanol os yn briodol.

## Ffilmio a thynnu lluniau

Mae tynnu lluniau neu ffilmio plant neu oedolion mewn perygl yn aml yn ffordd dda o gofnodi digwyddiad cadarnhaol neu hysbysebu clwb ond mae'n rhaid dilyn protocolau penodol i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 ac i ddiogelu plant a/neu oedolion mewn perygl. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth dros dynnu, cadw, storio, defnyddio a chyhoeddi delweddau, ffotograffau, ffilm a sain, delweddau ar wefannau rhwydweithiau cymdeithasol a rhannu fideos. Y nod yw diogelu plant ac oedolion mewn perygl a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hecsbloetio drwy ddefnydd amhriodol o ddelweddau o'r fath. Arfer da yw cyhoeddi ar ddechrau digwyddiadau/gweithgareddau'r Eglwys y dylai pawb sy'n bresennol ystyried hawliau ffotograffiaid a phreifatrwydd pobl eraill.

Mae yna lawer o rinweddau cadarnhaol i rannu lluniau digidol. Fodd bynnag, fe all achosi peryglon uniongyrchol neu anuniongyrchol hefyd fel seiberfwlio, defnydd gan rai sy'n manteisio'n rhywiol, eu defnyddio ar gyfer magu perthynas amhriodol a dangos deunydd anaddas ac amhriodol i blant ac oedolion mewn perygl. Efallai fod yna achosion hefyd lle mae yna resymau da gan y rhiant neu ofalwr dros wrthod gadael i'r eglwys dynnu neu ddefnyddio lluniau. Gallai'r rhesymau dros wrthod gynnwys dymuniad gan y rhiant neu'r gofalwr i beidio â thynnu lluniau neu fod y plentyn yn destun achos anghydfod cyfreithiol neu o dan ofal awdurdod ac nad oes llawer o bobl yn gwybod am ei leoliad. Nid oes gofyniad ar riant neu ofalwr i ddatgan y rheswm dros wrthod cydsyniad.

## Diogelu data

Mae ffotograffau, lluniau digidol a ffilm (delweddau) i gyd wedi'u dosbarthu fel data personol ac felly'n destun Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r ddeddf yn cynnwys wyth egwyddor Diogelu Data sydd angen eu dilyn. Mae'n rhaid gwneud y canlynol gyda ffotograffau, lluniau digidol a ffilm (delweddau):

- eu defnyddio'n deg a chyfreithlon
- eu defnyddio at ddibenion cyfyngedig a gafodd eu datgan yn benodol
- eu defnyddio mewn ffordd ddigonol, berthnasol a heb fod yn ormodol
- eu defnyddio'n gywir
- eu cadw am y cyfnod sydd eu hangen yn unig ac at y pwrpas y casglwyd nhw
- eu trin yn ôl hawliau diogelu data pobl
- eu cadw'n ddiogel
- peidio â'u trosglwyddo y tu allan i'r DU heb ddiogelwch digonol

Mae nodi ac ystyried y math o weithgaredd neu ddigwyddiad yn gam cyntaf pwysig wrth ystyried a deall cyfrifoldebau y rhai sy'n gysylltiedig â ffilmio neu dynnu lluniau. Ar ôl nodi'r math o weithgaredd neu ddigwyddiad mae'n bwysig llunio rhestr o beth fydd yn digwydd yn ystod y digwyddiad a phwy fydd yn bresennol. Mae hefyd yn bwysig ystyried nid yn unig bresenoldeb tebygol camerâu ond y defnydd o ffonau symudol, llechi a dyfeisiau fideo hefyd. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i dynnu lluniau plant ac oedolion mewn perygl. Mae hyn yn

rhan bwysig o arferion cyfredol, ac mae'r defnydd o luniau o'r fath yn eang. Mae'n bwysig felly esbonio'n glir i blant beth yw'r drefn o ran tynnu lluniau. Mae plant wedi arfer dilyn polisiau sydd ar waith mewn ysgolion a sefydliadau eraill a byddant yn disgwyl i'r eglwys fod yr un mor glir am yr hyn a ganiateir.

## Cydsyniad ar gyfer tynnu lluniau

Mae'n **rhaid** cael caniatâd ysgrifenedig penodol y rhiant/gwarcheidwad cyn ffilmio neu dynnu llun o blentyn yn ystod gweithgareddau eglwys. Mae'n rhaid cwblhau'r **Ffurflen Cydsyniad ar gyfer Tynnu a Defnyddio Lluniau** yn esbonio'r pwrpas dros wneud y ffilm/tynnu'r llun e.e. ar gyfer gwefan yr eglwys, byrddau gwybodaeth, y wasg ac ati ac mae'n rhaid i'r rhiant a'r plentyn ei llofnodi (pan fo'r plentyn o oedran cydsynio). Mae'n rhaid i'r ffurflen cydsyniad ddatgan at beth fydd y llun yn cael ei ddefnyddio ac y bydd yn cael ei ddifa ar ôl cael ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas a gafodd ei ddatgan. Dylid annog rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr i roi gwybod i'r sefydliad os nad ydynt am i'w plentyn ymddangos mewn lluniau/ffilmiau.

Mae'n rhaid cadw cofnodion priodol o'r cydsyniad a roddwyd a dylid adnewyddu'r cydsyniad hwnnw bob blwyddyn. Gweler y **Rhestr o Enwau ar gyfer Aseiad Risg** i'w defnyddio i greu rhestr o enwau plant a chydsyniadau diogelu cysylltiedig. Dylai hwn gyd-fynd ag aseiad risg ar gyfer y digwyddiad a bod yn gysylltiedig ag ef.

Caniateir i rieni a gofalwyr dynnu eu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd. Os rhoddir cydsyniad ar gyfer pwrpas penodol e.e. defnyddio'r llun ar wefan y plwyf, mae'n rhaid cael cydsyniad pellach os bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer pwrpas gwahanol e.e. adroddiadau blynyddol.

Nid oes angen cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer defnyddio lluniau o oedolion. Fodd bynnag, dylid rhoi'r dewis i bawb sefyll allan o'r llun a dylid cofnodi enwau'r rhai sy'n gwrthod bod yn y llun.

Wrth dynnu lluniau, mae'n bwysig bod yn sensitif, yn ofalus ac ystyried sut y byddant yn cael eu defnyddio. Dylid dilyn yr arfer da canlynol:

- sicrhau bod cofnod dyddiedig yn cael ei gadw o'r gwasanaeth/digwyddiad a'r person(au) sydd yn y llun wrth dynnu llun
- defnyddio ffotograffau grŵp yn hytrach na llun o unigolyn lle bo'n bosibl
- peidio â thynnu lluniau o blant neu oedolion mewn perygl sydd ddim wedi gwisgo'n addas. Os ydych yn tynnu llun o weithgaredd nofio dylid canolbwyntio ar y gweithgaredd yn gyffredinol nid ar unigolion
- dylid gwirio pob llun a dynnwyd i weld bod cydsyniad priodol wedi'i roi a dylid dileu neu ddifa'r llun os oes unrhyw amheuaeth.

Y Cyngor Plwyf Eglwysig/Cyngor Ardal Gweinidogaeth sy'n gyfrifol am unrhyw weithgarwch neu ddigwyddiadau a drefnir gan yr eglwys. Trefnydd y digwyddiad sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau preifat.

## Defnyddio a storio lluniau

Mae'n drosedd i feddu ar, tynnu neu ganiatáu i dynnu, gwneud, dosbarthu, neu ddangos unrhyw luniau neu luniau-gwneud anwedus o blentyn.

Mae'n rhaid ystyried y canlynol wrth storio a defnyddio lluniau:

- ni ddylid rhoi llun/ffilm o'r plentyn/plant ar wefan heb gydsyniad ysgrifenedig y rhiant neu'r gofalwr
- wrth ddefnyddio lluniau o blant at ddibenion cyhoeddusrwydd neu gyhoeddiad y wasg ni ddylid defnyddio enw'r plentyn neu wybodaeth adnabod arall. Os bydd enwau'n cael eu cyhoeddi, dylid ond gwneud hyn ar ôl i'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol roi cydsyniad ysgrifenedig. Bydd yna rai eithriadau amlwg i hyn fel dathlu gwobr neu gyflawniadau, ond mae'n rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig yn gyntaf
- byddwch yn fwy gofalus gyda lluniau digidol ac yn ymwybodol y gall y rhain gael eu camddefnyddio ar gyfer delweddau o gam-drin plant yn y dwylo anghywir
- mae'n rhaid cadw lluniau o blant mewn lle diogel
- dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig/Cyngor Ardal Gweinidogaeth ystyried sut a ble y bydd lluniau'n cael eu cadw i fodloni gofynion y canllawiau hyn
- ni ddylai gweithwyr gadw lluniau maent wedi'u tynnu yn eu swydd gyda'r Eglwys yng Nghymru ar eu ffonau personol, i-pad, llechen, cyfrifiaduron ac ati. Pan nad oes opsiwn i gadw lluniau/fideos ar gyfrifiadur yr Eglwys yng Nghymru, yna cyfrifoldeb y ffotograffydd ac arweinydd y digwyddiad yw sicrhau bod lluniau/fideos yn cael eu cadw ar gof bach wedi'i amgryptio. Y disgwyl yw y bydd y cof bach hwn yn cael ei gadw mewn lle wedi'i gloi yn eiddo yr Eglwys yng Nghymru
- dylai pob plentyn y tynnir ei lun fod yn rhan o grŵp lle bo'n bosibl
- defnyddiwch lluniau o blant mewn dillad addas yn unig ar gyfer y llun. Bydd hyn yn diogelu urddas y plentyn ac yn lleihau'r perygl o ddefnydd amhriodol. Yn ogystal, gweler y gofyniad am gydsyniad yn yr adran hon
- mae'n rhaid cadw'r llun yn ddiogel a chael gwared arno/ei ddileu pan na fydd ei angen mwyach
- mae ffotograffau, lluniau digidol a ffilm (y cyfeirir atynt fel delweddau) i gyd wedi'u dosbarthu fel data personol. Mae'r data hwn yn destun Deddf Diogelu Data 2018. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf drwy gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Swyddfa Cymru wales@ico.org.uk.
- yn achos pob Digwyddiad Talaith a digwyddiadau preswyl, mae'n rhaid rhoi copïau o ffurflenni cydsyniad i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu neu'r person sy'n gyfrifol am waith cyfathrebu'r digwyddiad a'i friffio am unrhyw blant na ddylid eu hadnabod. Gall hyn gynnwys peidio â'u henwi, tynnu eu llun, eu cynnwys mewn fideo a/neu eu cyfweld a bod yn glir pwy yw'r rhain a'r camau i reoli eu cyfranogiad.

Mae angen cydsyniad penodol ar lun a dynnwyd yn ddiarwybod i'r plentyn sy'n dangos pwy ydyw ac yn ei gysylltu â'r Eglwys yng Nghymru. Lle bo'n bosibl, dylai ffotograffydd sy'n gweithredu ar ran yr Eglwys yng Nghymru ddweud wrth bobl pwy ydyw e.e. pobl sy'n mynychu digwyddiad/gweithgaredd Eglwysig a chaniatáu i bobl gamu allan o luniau o'r fath.

## Digwyddiadau preswyl

Bydd unrhyw ddigwyddiad preswyl a drefnir ar gyfer plant yn golygu cymryd cyfrifoldeb am eu



lles, bod yn barod am unrhyw bosibilrwydd, rhagweld sefyllfaoedd lle mae yna berygl posibl a chymryd camau i leihau, dileu, osgoi a rheoli perygl. Mae'n rhaid i bob digwyddiad gael arweinydd a nodwyd a pherson a enwyd gyda chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer diogelu. Dylai cynlluniau ar gyfer pob digwyddiad gynnwys arweinwyr digwyddiadau, Swyddog Diogelu, Swyddog Iechyd a Diogelwch, Swyddog y Cyfryngau. Mae'n rhaid cwblhau *Cais i Gymeradwyo Gweithgareddau* cyn cynnal unrhyw ddigwyddiad o'r fath. Cyn cynnal digwyddiad preswyl, mae'n rhaid i'r arweinydd gwblhau asesiad risg ffurfiol o'r lleoliad a'r gweithgareddau gan gyfeirio at ganllawiau iechyd a diogelwch yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n rhaid cael ffurflenni cydsyniad wedi'u llofnodi gan y person sydd â chyfrifoldeb riant ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu'r digwyddiad ac mae'n rhaid iddynt nodi natur y gweithgareddau y bydd y plentyn yn cymryd rhan ynddynt. Dyma'r *Cydsyniad ar gyfer Gweithgareddau Penodol*. Dylid cynnal cyfarfod terfynol o leiaf 4-5 diwrnod gwaith cyn cytuno ar y trefniadau terfynol. Disgwylir y bydd *Ffurflenni Cadw'n Ddiogel* yn cael eu defnyddio i gefnogi'r cyfarfod terfynol a'r holl asesiadau risg a gwblhawyd (*Templed Asesiad Risg*).

Mae'n rhaid ffeilio ffurflenni'n ddiogel yn unol â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data a chadw cofnodion. Mae'n rhaid cyflwyno pob ffurflen cydsyniad i'r periglor/offeiriad cyfrifol ynghyd ag asesiad risg wedi'i gwblhau a'r *Cais i Gymeradwyo Gweithgareddau*. Mae'n rhaid cwblhau'r holl ffurflenni'n llawn a'u cadw'n ddiogel. Cyfrifoldeb arweinydd dynodedig y digwyddiad yw hyn. Dylai'r periglor neu'r offeiriad cyfrifol gydlofnodi'r *Cais i Gymeradwyo Gweithgareddau* i gydnabod ei fod wedi e dderbyn.

Mae'n rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â chynnal y digwyddiad, yn cynnwys rhieni sy'n gwirfoddoli, gydymffurfio â pholisi diogelu a chanllawiau cysylltiedig yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r holl oedolion a phlant sy'n cymryd rhan yn y digwyddiad wybod sut i adrodd am gŵyn diogelu i'r person a enwyd gyda chyfrifoldeb dynodedig am ddiogelu.

## Diogelu Plant mewn Amgylchiadau Penodol

Mae yna nifer o weithgareddau yn yr eglwys lle mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd heb eu darparu ar gyfer pobl ifanc yn unig ac nad ydynt o reidrwydd yn cael eu harwain gan unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant ar weithio gyda phlant. Gallai hyn gynnwys plant yn canu mewn corau neu'n canu clychau, gweithgareddau anffurfiol fel actio neu weision allor yn yr eglwys.

## Corau eglwys a chadeirlan sy'n cynnwys plant

Mae plant sy'n aelodau o gorau eglwys neu gadeirlan yn cael llawer o gysylltiad ag oedolion, yn cynnwys sesiynau ymarfer, cyngherddau, ymweliadau a theithiau. Mae llawer o'r gweithgarwch hwn yn digwydd mewn awyrgylch hamddenol ac anffurfiol ond dylai staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ac yn cymdeithasu â phlant yng nghyd-destun corau eglwysi neu gadeirlannau fod yn ymwybodol bod diogelwch o'r pwys mwyaf. Dylai staff a gwirfoddolwyr mewn adrannau cerddoriaeth eglwysi ryngweithio'n briodol â phlant er mwyn cynnal perthynas iach a diamwys ac osgoi sefyllfaoedd a allai gael eu camddechongli neu eu camddefnyddio. Mae'n hanfodol bod staff a gwirfoddolwyr yn dilyn polisi diogelu a chanllawiau cysylltiedig yr Eglwys yng Nghymru i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl ac i osgoi rhoi eu hunain mewn perygl. Dylai pawb sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth eglwys gydymffurfio â pholisi a chanllawiau diogelu'r Eglwys yng Nghymru, yn cynnwys clerigion, organyddion,

arweinwyr corau, athrawon canu, gwarchodwyr, rhieni sy'n cynorthwyo, clercod lleyg ac oedolion sy'n aelodau o gorau, waeth a oes ganddynt gyfrifoldeb uniongyrchol am y cantorion ai peidio. Mae canllawiau pellach ar gael yn *Cod Ymarfer ar gyfer Staff a Gwirfoddolwyr: Corau Eglwys sy'n cynnwys Plant*.

## Cynorthwyr Ifanc

Gall pobl ifanc fod yn ased gwerthfawr i gymuned yr eglwys. Yn aml, mae ganddynt amser i wasanaethu'r Eglwys ac maen nhw'n gysylltiedig â chynlluniau eraill fel Cynllun Dug Caeredin, sy'n gofyn iddynt gwblhau gwaith gwirfoddol. Mae'n briodol i Eglwysi ddefnyddio pobl ifanc fel gwirfoddolwyr cyn belled â'u bod yn dilyn y canllawiau perthnasol ar hyn. Yn ôl y gyfraith, plant yw cynorthwyr ifanc o dan 18 oed ac ni ellir eu trin fel aelodau o'r tîm sy'n oedolion. Mae'n rhaid i gynorthwyr ifanc gael eu goruchwyllo'n agos gan oedolyn sy'n arwain bob amser ac ni ddylent gael cyfrifoldeb llwyr am grŵp o blant. Wrth ystyried cymarebau staff i blant, mae angen cyfrif cynorthwyr ifanc fel plant, nid arweinwyr. Mae gweithdrefnau diogelu'r Eglwys yng Nghymru yn berthnasol i gynorthwyr ifanc fel y maent i unrhyw berson arall.

Mae'n rhaid gofyn am ganiatâd rhiant / gofalwr cyn y gall cynorthwyr ifanc wirfoddoli. Mae unrhyw un dros 18 oed yn oedolyn ac yn cael ei ystyried fel arweinydd yn yr un modd ag unrhyw arweinydd arall sy'n oedolyn.

Mae'n arfer da i gynorthwyr ifanc fod o leiaf dwy flynedd ysgol yn hŷn na'r grŵp y mae'n ei helpu.

### Recriwtio Cynorthwyr Ifanc yn ddiogel

Nid oes angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bobl ifanc o dan 18 oed ond gall fod yn briodol gofyn iddynt gwblhau ffurflen gais (Ffurflen J) a chael geirdaon (Ffurflen K), yn enwedig os nad ydych yn eu hadnabod yn dda.

### Hyfforddi Cynorthwyr Ifanc

Os gall cynorthwyr ifanc gwblhau hyfforddiant modiwl A Ymwybyddiaeth o Ddiogelu (modiwl ar-lein) mae hynny'n ddefnyddiol. Bydd angen rhiant neu arweinydd sy'n oedolyn fod yno gyda nhw i drafod ac ateb cwestiynau. Nid oes rhaid i bobl ifanc o dan 18 oed wneud modiwl B.

Bydd hefyd yn bwysig i brif arweinydd y gweithgaredd drafod y rôl helpu wirfoddol â'r person ifanc, yn cynnwys disgwyliadau a ffiniau'r rôl.

## Clochyddion

Mae'n rhaid i glochyddion ddilyn yr egwyddorion arfer da a nodwyd yn y canllawiau hyn. Dylai capten y tŵr gydymffurfio ag arferion recriwtio diogel a dylai feddu ar dystysgrif datgelu cofnod troseddol cyfredol. Bydd yn cymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch a lles yr holl blant yn y tîm canu clychau, yn y gwasanaethau a'r ymarferion. Dylai'r holl oedolion sy'n rhan o'r gwaith canu clychau fod yn ymwybodol o beryglon diogelu a gwybod sut i ymateb i bryderon diogelu. Mae'n

rhaid i gapten y tŵr adrodd am bryderon diogelu i Swyddog Diogelu'r Dalaith.

## Cyngherddau, teithiau, ymweliadau, gweithgareddau oddi ar y safle a digwyddiadau cymdeithasol

Pan fydd gweithgareddau eglwysig yn digwydd i ffwrdd o'r eglwys, dylai clerigion, swyddogion yr eglwys a gwirfoddolwyr ddilyn yr un safonau ymddygiad ag sy'n ddisgwyliedig ar gyfer gweithgareddau a gynhelir yn yr eglwys, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd pan nad ydynt ar ddyletswydd ond ym mhresenoldeb plant. Dylai oedolion ystyried sut y gallai plant ystyried eu hymddygiad a'u sgwrs a deall y gallent fod yn rôl-fodelau iddynt.

Mae yna nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol mewn unrhyw galendr eglwysig. Dylai oedolion fod yn ymwybodol y gall plant gamdehongli'r berthynas fwy hamddenol a allai fod yn briodol yn y cyd-destunau hyn. Mae'n bwysig pwysleisio na ddylai'r safonau ymddygiad o amgylch plant fod yn wahanol i'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer gweithgareddau eraill yr eglwys. Dylai oedolion fod yn ymwybodol o'r gofal arbennig y dylid ei gymryd gyda phlant hŷn, mwy aeddfed yn yr amgylchiadau hyn.

## Gweision Allor

Mae plant sy'n weision allor yn treulio llawer o amser gydag oedolion, yn gwneud gweithgareddau a wneir gan oedolion fel rheol ond mae'n bwysig cofio eu bod yn parhau i fod yn blant, er y cyfrifoldeb ychwanegol, ac ni ddylid eu trin yn wahanol i blant eraill. Mae'r egwyddor hon yn berthnasol i bob plentyn sy'n was allor, yn cynnwys y rhai un ar bymtheg neu ddwy ar bymtheg oed a allai fod yn fwy aeddfed ond ni ddylid eu trin yn gyfwerth ag oedolion mewn swyddi cyfrifol. Mae'n bwysig iawn bod yn ymwybodol o sefyllfaoedd lle mae plant sy'n weision allor yn cyflawni eu dyletswyddau ochr yn ochr ag oedolion ifanc sy'n weision allor na fydd llawer yn hŷn na nhw a sicrhau bod ffiniau priodol yn cael eu cynnal bob amser. Dylid sicrhau bod oedolion ifanc sy'n weision allor yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i ddiogelu ac amddiffyn eu cydweithwyr iau. Dylid cymryd gofal i osgoi sefyllfaoedd lle mae plentyn sy'n was allor yn cael ei adael ar ei ben ei hun gydag offeiriad neu oedolyn arall neu blentyn sy'n was allor yn y festri a dylid cymryd mesurau diogelwch ychwanegol pan na ellir osgoi hyn, fel gadael drysau ar agor neu roi gwybod i oedolion cyfrifol eraill gerllaw. Dylai plant sy'n weision allor wybod sut i adrodd am rywbeth sy'n eu poeni a chael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu rôl gyda mwy nag un oedolyn cyfrifol.

## Diogelu sy'n ymwneud yn benodol â'r Weinidogaeth

### Rhagymarweiniad

Mae gweinidogaeth yn disgrifio gweithgaredd lleygwyr a chlerigwyr yn eu gweithredoedd, a awdurdodwyd ac a gydnabyddir gan yr eglwys, yn mynegi gwaith a gwerthoedd Teyrnas Dduw (Rhufeiniaid 12:6). Mae'r gweithgaredd hwn yn meithrin bywyd mewnol yr eglwys ac yn ymestyn allan mewn gwasanaeth cariadus i'r byd. Mae'n hanfodol bod y weinidogaeth hon yn ddilys, gan greu a chynnal amgylchedd diogel sy'n hybu lles ac yn helpu pawb i dyfu yn eu ffydd Gristnogol. Mae'r berthynas rhwng person sy'n arfer unrhyw fath o weinidogaeth a'r rhai y mae'n gweinidogaethu iddynt yn un o ymddiriedaeth. Mae'n bodoli o fewn ffiniau clir ac

angenhaidiol, ac mae hyn yn rhoi dyletswydd gofal arbennig i sicrhau bod pawb yn aros yn ddiogel. Pan fydd ymddiriedaeth yn cael ei chamddefnyddio, mae'r niwed a wneir i unigolion, cynulleidfaoedd a'r gymuned ehangach yn ddinistriol. Rhaid i buddiannau a lles gorau plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg fod wrth galon y weinidogaeth bob amser a chael eu harfer mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn diogelu eu lles. Wrth weithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg, rhaid cymryd gofal arbennig i sicrhau bod perthnasoedd yn cael eu rheoli'n ddiogel a'r gweinidog sydd mewn sefyllfa o awdurdod sy'n gyfrifol am hyn.

### Gweinidogaeth gweddi gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg

Mae offrwm gweddi yn nodwedd werthfawr a nodedig o fywyd ac addoliad Cristnogol (Actau 2:42). Cynigir ymbiliau ar ran yr eglwys a'r byd bob Sul. Fodd bynnag, gellir cynnig gweddi i unigolion yn fwy personol hefyd. Bob amser, dylai amddiffyn a gofal pawb sy'n derbyn y weinidogaeth hon fod yn hollbwysig. Rhaid i weddio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg gael ei gynnig yn unig gan y rhai sydd wedi'u hawdurdodi gan yr eglwys yn dilyn hyfforddiant priodol a chwblhau'r gwiriadau recriwtio mwy diogel angenrheidiol.

### Cynghori unigol

Mae cynghori yn galluogi unigolion a grwpiau i fyfyrion ar eu profiadau mewn bywyd a thaith tuag at gyfanrwydd. Addawodd Iesu gyflawnder bywyd (Ioan 10:10) ond yn aml mae hon yn daith sy'n gofyn am help ac arweiniad gan eraill. Dim ond y rhai sydd wedi'u hyfforddi a'u hawdurdodi gan yr eglwys i weithio fel cynghorwyr ddylai gynnig y weinidogaeth hon. Dylai cynghori fod yn rhan o'r gofal bugeiliol ehangach sy'n cael ei gynnig, lle bo'n briodol, mewn ymgynghoriad â chynghorwyr meddygol.

### Perthnasoedd personol

Rhaid bod yn arbennig o ofalus a chynnal ffiniau clir wrth weinidogaethu i bobl lle mae perthynas bersonol agos. Dylai clerigwyr a gweinidogion fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddibyniaeth mewn perthynas fugeiliol a cheisio cyngor a goruchwyliaeth pan fydd y sefyllfaoedd hyn yn codi. Dylai clerigwyr a gweinidogion osgoi ymddygiad a allai roi'r argraff o berthnasoedd amhriodol arbennig. Dylid trafod pryderon am y berthynas rhwng gweinidog a phlentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg gyda Swyddog Diogelu Taleithiol.

### Gweinidogaeth ymwared

Mae gwaredigaeth yn weinidogaeth arbenigol a dim ond y rhai a awdurdodwyd yn benodol ar gyfer y weinidogaeth hon gan yr esgob a ddylai gael ei harfer a dim ond at gynghorwyr gweinidogaeth ymwared esgobaethol y dylid cyfeirio ymholiadau. Dylai clerigion ac eraill sy'n derbyn ceisiadau am weinidogaeth ymwared egluro mai dim ond y rhai a awdurdodwyd all ddarparu gweinidogaeth o'r fath a, gyda chaniatâd yr unigolyn(unigolion) dan sylw, dylent gyfeirio'r mater at dîm Gwaredu'r Esgobaeth. Rhaid cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau

diogelwch y rhai sy'n derbyn gweinidogaeth ymwared. Rhaid gwneud hyn gan ddilyn polisi diogelu ac arferion gorau'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'n hanfodol bod pawb yn deall beth sy'n cael ei ddarparu a beth mae'r weinidogaeth yn ei olygu. Dylid defnyddio arbenigedd arbennig y cynghorwyr er mwyn helpu mor effeithiol â phosibl ond dim ond gyda gwybodaeth ac awdurdod yr Esgob y gellir ei weinyddu. Dylai cynghorwyr ystyried pob ymholiad ymwared o fewn cyd-destun ehangach llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl a diogelu, a thrafod unrhyw wybodaeth ac atgyfeiriadau diogelu gofynnol gyda Swyddog Diogelu Taleithiol. Mae ceisiadau am weinidogaeth ymwared yn amrywio'n sylweddol o ran eu natur a'u cymhlethdod. Mae angen dirnadaeth ofalus oherwydd gall fod materion yn ymwneud ag iechyd meddwl neu gorfforol yn lle hynny neu ochr yn ochr â phroblem ysbrydol ddyfnach.

Disgrifir allfwriad yn glir yn yr efengylau fel rhan gynhenid o weinidogaeth Iesu (e.e. Mathew 4:24; 8:16; 8:32; 9:33-4) ac mae'n gorchymyn i'w ddisgyblion wneud yr un peth (Mathew 7:22; 10:8 ac ati). Fodd bynnag, gyda mewnwediadau meddygaeth fodern a seiciatreg rydym yn deall y gall yr hyn a ddeallwyd i fod yn broblem ysbrydol fod yn salwch fel epilepsi. Mae'n hanfodol bod yr Eglwys yn sicrhau bod gweinidogaeth allfwriad yn digwydd dan amodau caeth sy'n anrhydeddu urddas a lles pawb dan sylw.

Os bydd cais am allfwriad, rhaid cyfeirio'r mater at esgob yr esgobaeth ac hi/ef yn unig a all awdurdodi gweinidogaeth o'r fath, yn dilyn ymchwiliad trylwyr i'r amgylchiadau a gyda chyngor arbenigwyr ymwared. Rhaid ceisio caniatâd o'r fath bob tro y gofynnir am allfwriad. Nid oes 'caniatâd cyffredinol' i ymgymryd â gweinidogaeth o'r fath.

### Gweinidogaeth iachâd

Mae gweinidogaeth iachâd yn weinidogaeth Feiblaidd a drysorir gan yr eglwys (Iago 5:14) ac un a ymarferir gan Iesu ei hun. Offrymir gweddïau cyffredinol am iachâd yn ystod addoliad ond mae gweinidogaeth benodol iachâd a/neu eneniad i unigolion yn gofyn am sensitifrwydd. Mae'n hanfodol bod gweinidogion wedi'u hawdurdodi'n briodol, yn cwblhau hyfforddiant diogelu angenrheidiol ac yn dilyn polisiau diogelu'r Eglwys yng Nghymru.

Os oes pryderon am ffiniau, cyswllt corfforol neu faterion sy'n codi yn ystod y gweddïau am iachâd, dylid trafod y rhain gyda'r Arweinydd Ardal Weinidogaeth a fydd yn gallu ymgynghori â Thîm Diogelu'r Dalaith.

### Gweinidogaeth y Cymod

Dim ond esgobion ac offeiriaid all arfer Gweinidogaeth y Cymod. Dylid codi unrhyw bryderon neu honiadau o natur diogelu a godir yn y sêl gyffes gyda'r tîm diogelu. Mae Canllawiau Gweinidogol Proffesiynol yr Eglwys yng Nghymru paragraffau 7.3 a 7.4 yn nodi:

“Lle mae cam-drin plant neu oedolion agored i niwed yn cael ei dderbyn yng nghyd-destun cyffesiad, dylai'r clerig annog y person i adrodd am ei ymddygiad i'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, a dylai hefyd wneud hyn yn amod o'r gollyngdod, neu atal gollyngdod nes i tystiolaeth o edifeirwch wedi ei ddangos. Os yw ymddygiad y sawl sy'n edifarhau yn bygwth ei

les ei hun neu les eraill yn ddifrifol, yn enwedig plant neu oedolion bregus, dylai'r clerig fynnu gweithredu ar ran yr sawl sy'n edifarhau.”

### Dioddefwyr a Goroeswyr cam-drin nad yw'n ddiweddar yn ystod plentyndod

Gall clerigwyr a'r rhai sy'n cynnig gofal bugeiliol yn yr eglwys glywed datgeliadau o gamdriniaeth a ddigwyddodd i oedolyn yn ystod plentyndod. Gall y gamdriniaeth fod wedi digwydd ar unrhyw adeg yn ystod plentyndod yr oedolyn a dylid trin honiadau o gam-drin nad yw'n ddiweddar yn yr un modd â honiadau cyfoes. Nid oes terfyn amser ar adrodd am droseddau cam-drin honedig a rhaid cyfeirio'r datgeliad at Swyddog Diogelu Taleithiol. Lle bo'n bosibl, dylid disgrifio'r terfynau cyfrinachedd o'r cychwyn cyntaf ac, ar adeg unrhyw ddatgeliad, dylid gwneud yn glir hefyd yr amgylchiadau pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â Swyddog Diogelu Taleithiol. Mae hyn yn cynnwys egluro y gall fod angen rhannu rhywfaint o wybodaeth ag awdurdodau statudol hyd yn oed heb ganiatâd yr oedolyn. Gall hyn hefyd gynnwys atgyfeiriadau lle mae'r oedolyn yn dymuno aros yn ddiennw. Bydd dymuniadau'r person sy'n datgelu cam-drin yn bwysig iawn ac i rai oedolion gall dim ond siarad â pherson y gallant ymddiried ynddo am y profiadau fod yn ddigwyddiad iachâd pwerus. Fodd bynnag, gallai cyflawnwr honedig o gam-drin nad yw'n ddiweddar yn erbyn plentyn neu blant fod yn cam-drin plant o hyd ac mae potensial i amddiffyn plant rhag y risg o niwed a chamdriniaeth bellach. Mae'n anodd iawn i oedolion siarad am y gamdriniaeth a brofwyd ganddynt fel plentyn, ac mae'n cymryd dewrder i ddod ymlaen a rhannu eu stori. Er ei bod yn bwysig parhau i gefnogi oedolyn sydd wedi gwneud datgeliad o gam-drin nad yw'n ddiweddar, rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch atgyfeirio i'r awdurdodau statudol o fewn amserlen sy'n amddiffyn plant. Nid yw torri cyfrinachedd i adrodd am ddatgeliad o gamdriniaeth yn ystod plentyndod yn dor-ymddiriedaeth.

### Maddeuant

Rhodd gan Dduw yw maddeuant (Col. 1:14) ac mae'n dod â ni i brofiad dyfnach o gariad Duw. Mae hefyd yn fater cymhleth yn enwedig i'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin. Ni ddylid annog goroeswyr neu ddioddefwyr cam-drin i faddau'n ddiamod pan na allant wneud y penderfyniad hwn. Rhaid cydnabod deinameg pŵer mewn cyfarfyddiadau bugeiliol fel nad yw goroeswyr neu ddioddefwyr yn teimlo'n ddi-rym ac felly'n methu â myfyrio ar eu profiadau. Mae'n amhriodol felly awgrymu i ddioddefwr neu oroeswr cam-drin ei fod wedi methu os nad yw'n maddau i'r camdriniwr neu y bydd ei gynnydd yn cael ei amharu neu ei beryglu. Mae maddeuant yn fater hynod bersonol. I rai, bydd yn agwedd bwysig ar eu hiachâd a bydd yn dod â heddwch a chau. I eraill, gellir barnu ei fod naill ai'n ddiangen neu hyd yn oed yn amhriodol oherwydd nad yw'r camdriniwr wedi dangos edifeirwch. Bydd angen i bawb deithio ar eu cyflymder eu hunain ac mewn ffordd y gellir ei rheoli. Mae'r cwestiwn o faddeuant yn un y gallai dioddefwr neu oroeswr dymuno ei archwilio mewn sgwrs â Christion sy'n fedrus mewn gwranddo a gofal bugeiliol. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gallu darparu cymorth o'r fath, ond ni ddylid gwneud i unrhyw ddioddefwr na goroeswr deimlo bod hyn yn angenrheidiol.

Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y dioddefwr neu'r goroeswr yn teimlo bod croeso iddo a'i fod yn cael ei gefnogi yn ei eglwys, yn enwedig pan fo'r niwed neu'r gamdriniaeth a brofwyd yn hysbys yn y gynulleidfa, efallai ar ôl arestio camdriniwr. Mae'n hanfodol nad yw cymuned yr eglwys yn dyfalu ar y gamdriniaeth nac yn beio'r dioddefwr neu'r goroeswr mewn unrhyw fodd am siarad am eu profiad.

Gelwir yr eglwys i ddarparu gofod diogel lle gall pobl ddarganfod heddwch, derbyniad a chroeso cariadus.

### Casgliadau

Gelwir ar yr Eglwys i ddilyn Iesu Grist ac i fodlu ei fywyd yn ei gweinidogaeth. Mae amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed yn gynhenid i'r alwad hon. Mae'n rhaid i ni fynegi'r gofyniad cyffredinol hwn mewn ffyrdd penodol: y ffiniau rydym yn eu cynnal, y parch a'r urddas a gynigiwn, y polisiau sy'n amddiffyn a'r cosbau sy'n angenrheidiol i orfodi ein rheoliadau. Ein gobaith a'n nod yw y bydd ein gweinidogaeth yn dod â chyfanrwydd i'r goroeswyr a bod diogelwch pawb yn dod yn arferol. Mae'n hanfodol ein bod yn creu eglwys lle mae pawb yn ddiogel rhag niwed a lle mae gwersi'n cael eu dysgu'n barhaus a phan fyddwn yn methu, rydym yn cydnabod hyn yn gyflym ac yn agored.